

Rhestr wirio symud allan

Dilynwch y camau hyn i symud o'ch cartref heb drafferth. Ticiwch y blychau i wneud yn siŵr na fyddwch chi'n anghofio dim!



Ydych chi wedi cofio.	Beth i'w wneud...	Wedi gwneud?
Rhent – Ydych chi wedi'i dalu i gyd?	Sicrhewch fod y landlord wedi cael yr holl rent	
Bond/Blaendal – Ydych chi'n gwybod manylion eich Blaendal a manylion diogelu'ch bond?	Darllenwch eich contract tenantiaeth a'ch e-byst am fanylion. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch landlord neu cysylltwch â'ch Gwasanaeth Blaendal Tenantiaeth.	
Rhestr offer – Ydych chi wedi darllen y rhestr wirio ers pan symudoch chi mewn? Edrychwch am ddifrod nad oedd yno pan symudoch i mewn.	Edrychwch ar y rhestr eiddo â'ch landlord. Trefnwch ddyddiad arolwg. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Diogelu Blaendal Tenantiaeth os bydd anghytundeb o ran y blaendal/bond.	
Nwy, trydan a dŵr – Sicrhewch eich bod wedi talu'ch biliau.	Cymerwch ddarlleniadau o'r mesurydd a rhowch wybod i'r cwmnïau cyfleustodau pan fyddwch yn symud allan. Cysylltwch â Dŵr Cymru ar 0800 052 0145 neu www.dwrcymru.com Mae manylion Nwy a Thrydan ar filiau.	
Trwydded teledu – Ydych chi wedi rhoi gwybod eich bod yn symud allan? Mae'n bosibl y cewch rywfaint o ad-daliad!	Diweddarwch eich manylion yn www.tvlicensing.co.uk	
Glanhau – Ydy'r eiddo'n lân a thaclus?	Glanhewch bopeth yn drylwyr i wneud yn siŵr eich bod yn cael eich blaendal yn ôl. Rhannwch y gwaith rhwng pawb sy'n byw yno. Edrychwch beth sydd angen ei wneud ar y rhestr offer.	
Sbwriel – Ydych chi wedi symud yr holl sbwriel/gwastraff o'r eiddo ac yn yr ardd flaen a'r ardd gefn? Efallai bod diwrnodau casglu sbwriel ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.	Ffoniwch 02920 872087 neu ewch i www.caerdydd.gov.uk/gwastraff Rhowch sbwriel ar y palmant y tu allan i'ch eiddo erbyn 6am ar y diwrnod casglu (ond nid cyn 4pm y diwrnod cynt)	
Cynllun Gwaredu'r Gwastraff – Ydych chi wedi rhoi nwyddau nad ydych eu heisiau i'r cynllun elusen myfyrwyr? Os ydych chi'n clirio – rhowch e i elusen!	Rhowch bethau nad ydych eu heisiau fel nwyddau cegin, bwyd heb ei agor neu ddillad i Gynllun Gwaredu'r Gwastraff. Ewch ag eitemau i Undeb y Myfyrwyr a dewch o hyd i'ch Parth Gwyrdd. Ewch i www.cardiffdigs.co.uk/getitout i gael gwybodaeth.	
Allweddi – Ydych chi wedi dychwelyd eich allweddi i'ch landlord neu asiant gosod?	Rhowch allweddi i'r landlord/asiantaeth gosod tai yn yr arolwg symud allan.	
Post – Ydych chi wedi newid eich cyfeiriad cartref dros yr haf?	Cysylltwch â meddygon, y banc, cwmni ffôn symudol, ffrindiau, teulu, DVLA, cyflogwr.	